Adroddiad i'r	**Pwyllgor Craffu Perfformiad**
Dyddiad y cyfarfod	**16 Mawrth 2023**
Aelod / Swyddog Arweiniol	**Y Cynghorydd Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth / Liz Grieve, Pennaeth Cymunedau a Chwsmeriaid**
Pennaeth Gwasanaeth	**Liz Grieve, Pennaeth Cymunedau a Chwsmeriaid**
Awdur yr adroddiad	**Bethan Hughes, Prif Lyfrgellydd**
Teitl	**Safonau a Pherfformiad y Gwasanaeth Llyfrgell**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn amlygu perfformiad y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn erbyn Safonau Cenedlaethol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Darparu gwybodaeth ynghylch perfformiad y Cyngor yn erbyn 6ed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-20 (wedi'i ymestyn i 21-22) a'r cynnydd a wnaed i ddatblygu llyfrgelloedd fel mannau lles a chadernid unigol a chymunedol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Dylai'r Pwyllgor ystyried a chynnig sylwadau ar berfformiad yn erbyn 6ed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ac ystyried gwneud cais am adroddiad cynnydd ym mis Ionawr 2024.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. **Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru**

4.2. Mae dyletswydd statudol ar bob awdurdod llyfrgell yng Nghymru dan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964 i ddarparu gwasanaeth ‘cynhwysfawr ac effeithlon’ i’w breswylwyr. Mae’r Fframwaith o Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn galluogi Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru i fesur ac asesu sut y mae awdurdodau yn cyflawni eu dyletswyddau statudol.

4.3. Mae’r Gwasanaethau Llyfrgell yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol, sy’n nodi eu perfformiad ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, a bydd Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru yn ymateb iddo gydag Adroddiad Asesu Blynyddol.

4.4. Yn sgil pandemig Covid 19, diwygiwyd y gofynion adrodd ar gyfer 2021-22 i gydnabod y cyfyngiadau ar ddarpariaeth gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. O ganlyniad, ni fydd awdurdodau unigol yn derbyn Adroddiad Asesu Blynyddol llawn ond byddant yn derbyn adroddiad naratif gyda sylwebaeth ar berfformiad a fydd hefyd yn adlewyrchu sut y darparodd gwasanaethau llyfrgell wasanaethau yn 2021-22 a sut y gwnaethant gyfrannu at ymdrechion adferiad a chefnogaeth gymunedol yn eu hardal. Mae’r adroddiad naratif hwn wedi’i ohirio’n sylweddol a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2023. Felly nid yw'n bosibl ei gynnwys yn llawn gyda'r adroddiad hwn. Mae'r gwasanaeth wedi derbyn drafft cynnar ac mae sylwadau dethol wedi'u cynnwys.

4.5. Mae’r adroddiad hwn felly’n adlewyrchu’r data a gyflwynwyd gan Sir Ddinbych mewn perthynas â 2021-22 ar eu perfformiad yn erbyn 12 Hawl Craidd a 6 Dangosydd Ansawdd gyda pheth sylwebaeth ar berfformiad gan aseswyr Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

4.6. Mae Sir Ddinbych yn parhau i fodloni pob un o’r 12 Hawl Craidd.

4.7. Gofynnwyd i Awdurdodau adrodd yn erbyn 6 dangosydd ansawdd, ac nid oes unrhyw dargedau cyfansoddol ar gyfer y rhain yn 2021-22, ac nid oes unrhyw asesiadau na data cymharol ar gael. Dylid cofio bod cymhariaeth â’r ‘flwyddyn flaenorol’ yn cyfeirio at flwyddyn y cyfnod clo, 2020-21, pan oedd y llyfrgelloedd wedi cau am gyfnod a’r gwasanaeth yn gweithredu dan gyfyngiadau sylweddol.

4.8. Dangosydd Ansawdd 7: Lleoliad pwyntiau gwasanaeth

Dim newid

4.9. Dangosydd Ansawdd 8: Defnydd o'r llyfrgelloedd (ymweliadau â'r wefan, aelodau, defnyddwyr gweithredol a lefelau benthyca)

Cynyddodd nifer y benthycwyr gweithredol 70% wrth i gwsmeriaid ddychwelyd - ar 12.4%, dyma'r % uchaf o'r boblogaeth ar draws gogledd Cymru. Cynyddodd benthyca gan oedolion 93% i 1,013 dyraniad fesul 1,000 o'r boblogaeth, a chynyddodd benthyca gan blant 202% i 592 dyraniad fesul 1,000 o'r boblogaeth. Mae'r adroddiad asesu drafft yn nodi: "Gwelodd Sir Ddinbych lwyddiant arbennig mewn dyraniad e-ddeunyddiau, lle'r oedd ymhlith y gwasanaethau sydd ar y brig ar gyfer e-ddyraniadau fesul 1,000 o'r boblogaeth. Dros y flwyddyn llwyddodd llyfrgelloedd Sir Ddinbych i gynyddu eu horiau agor, wrth i'r gwasanaeth barhau i wella o effeithiau'r pandemig. Cadwodd y gwasanaeth ei wasanaethau archebu a chasglu a danfon i'r cartref."

4.10. Dangosydd Ansawdd 9: Deunydd darllen cyfredol a phriodol

Roedd y gwariant cyffredinol ar adnoddau yn debyg i'r flwyddyn flaenorol. Gwnaethom benderfyniad i fuddsoddi mwy o'n cyllideb mewn adnoddau plant yn 21-22 (24%) i liniaru effaith y pandemig ar ddysg plant, i annog ail-ymgysylltu â llyfrgelloedd a Sialens Ddarllen yr Haf a Gaeaf Llawn Lles, a buddsoddi mewn casgliadau allweddol fel Darllen yn Well i Blant ac EmpathyLab ar gyfer pob llyfrgell.

4.11. Dangosydd Ansawdd 10: Adnoddau Cymraeg

Dyrannwyd 13% o'r gyllideb adnoddau i ddeunyddiau Cymraeg. Mae'r adroddiad asesu drafft yn nodi: "Caiff swm sylweddol o'r gyllideb deunyddiau ei wario ar ddeunydd Cymraeg gyda'r gwasanaeth yn y chwartel uchaf o ran gwariant a dyraniad. Mae'r stoc yma ar gael ym mhob llyfrgell gyda mwy o stoc ar gael yn y cymunedau hynny sydd â chyfran uchel o siaradwyr Cymraeg. Mae'r gwariant uchel ar ddeunyddiau Cymraeg a nifer o ddyraniadau'n awgrymu bod y stoc hon yn bodloni anghenion cymunedau Sir Ddinbych."

4.12. Dangosydd Ansawdd 13: Cymwysterau a lefelau staffio

Mae lefelau staffio wedi gostwng o 1.85% gan na chafodd swyddi gwag eu llenwi er mwyn bodloni pwysau cyllidebol hanesyddol. Treuliwyd 1.7% o amser staff yn hyfforddi. Mae'r adroddiad asesu drafft yn nodi: "Mae Sir Ddinbych yn hanner uchaf y gwasanaethau ar gyfer staff cymwys fesul 10,000 o'r boblogaeth. Anogir staff i

barhau â'u dysgu a threuliwyd 1.7% o amser staff ar ddatblygu. Mae e-ddysgu gorfodol ar waith ac ymgymerodd staff hefyd â hyfforddiant i ddatblygu eu sgiliau digidol a chyfathrebu. Anogir staff hefyd i ddilyn cymwysterau addysgol ffurfiol. Ymhellach, anogir staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, ac mae 56% o'r staff eisoes yn ddwyieithog."

4.13. Dangosydd Ansawdd 14: Gwariant gweithredol

Cyfanswm y gwariant refeniw oedd £1,209,845, 3.63% yn uwch nag yn 20-21. Y Gwariant Cyfalaf oedd £29,526. Sylwer bod y ffigyrau hyn yn adlewyrchu swyddogaethau'r gwasanaeth llyfrgell ac nad ydynt yn cynnwys gwariant ar elfen Siop Un Alwad y gwasanaeth. Mae staff rheng flaen a rheoli sy'n gweithio yn ein gwasanaeth yn darparu ystod eang o wasanaethau i gwsmeriaid nad ydynt wedi'u cynnwys o fewn gofynion y Safonau. Rydym yn adrodd am 50% o'r cyfanswm lefelau staffio a gwariant ar staffio.

4.14. Gofynnwyd i awdurdodau adrodd ar weithgarwch digidol ar-lein. Gostyngodd y galw am y gwasanaeth Archebu a chasglu yn ystod y flwyddyn wrth i lyfrgelloedd ailagor yn llawn a phobl ddod yn fwy hyderus i ymweld a dewis eu llyfrau eu hunain (Cafwyd 1703 o geisiadau ym mis Ebrill 21 a 56 yn mis Mawrth 22). Roedd y gwasanaeth yn parhau i fod yn ddewis i bobl y byddai'n well ganddynt i staff ddewis ar eu cyfer. Lleihawyd y gallu i ddarparu gweithgareddau ar-lein wrth i wasanaethau ailagor, ond darparwyd 33 o sesiynau Facebook Byw Dechrau Da gyda 13060 o ymweliadau. Mae un grŵp darllen wedi parhau i gynnal ei gyfarfodydd ar-lein ond mae'r rhan fwyaf wedi dewis dychwelyd i gynnal cyfarfodydd yn bersonol. Mae'r adroddiad asesu drafft yn nodi: "Mae e-ddyraniadau fesul 1,000 o'r boblogaeth wedi cynyddu 15% ac maent yn parhau yn y chwartel uchaf. Maent hefyd yn darparu set helaeth o adnoddau ar-lein, gan gynnwys adnoddau Wcreineg. Maent yn priodoli'r twf hwn mewn e-adnoddau i gymorth gan Lywodraeth Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru."

4.15. Roedd gofyn hefyd i awdurdodau gyflwyno adroddiad naratif ar ffurf 6 astudiaeth achos i adlewyrchu gweithgarwch y gwasanaeth yn 2021-22 a sylwebaeth ar gyfraniad y gwasanaeth i flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Gweler yr adroddiad naratif ar gyfer Sir Ddinbych ynghlwm fel Atodiad 1.

4.16. Mae Atodiad 2 yn rhoi diweddariad ar ddatblygiadau mwy diweddar yn ystod 2022-23.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Themâu Corfforaethol?

5.1. Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell yn gyfrifoldeb statudol i'r Awdurdod, ac mae ei ddarpariaeth gwasanaeth yn cyfrannu at nifer o amcanion a themâu corfforaethol gan gynnwys Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalus; Sir Ddinbych sy'n dysgu a thyfu; Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well; Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal; Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; a Chyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae trawsnewid llyfrgelloedd yn ganolbwyntiau cymunedol i wasanaethau yn galluogi i ystod eang o wasanaethau a phartneriaid y cyngor gysylltu â chymunedau lleol drwy'r rhwydwaith o safleoedd a chyfleusterau presennol. Nid oes unrhyw gynnig ariannol ynghlwm â'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid ydym wedi cynnal Asesiad o Effaith ar Les, ond mae'r 6ed Fframwaith o Safonau Llyfrgelloedd wedi'i osod i arddangos bod gan lyfrgelloedd gyfraniad amlwg i'w wneud at saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ym mis Ionawr 2022, ystyriodd y Pwyllgor Craffu Perfformiad yr Asesiad o berfformiad y Gwasanaeth Llyfrgell yn 2020-21 gan Lywodraeth Cymru. Nid oes unrhyw ymgynghoriad pellach wedi bod o ran yr adroddiad penodol hwn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Ni cheir goblygiadau ariannol uniongyrchol yn sgil yr adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Amherthnasol

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2. Mae Adran 7.4.2(b) Cyfansoddiad y Cyngor yn gosod amod y gall y pwyllgor craffu “adolygu a chraffu ar berfformiad y Cyngor mewn perthynas â'i amcanion polisi, targedau perfformiad a/neu feysydd gwasanaeth arbennig”.